**MARK ISHERWOOD MS|AS**
Member of the Welsh Parliament for **North Wales**
Aelod Senedd Cymru dros **Ogledd Cymru**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Tachwedd 2025

Annwyl Peredur,


**Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Cyllid am eich gwaith craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 10 Tachwedd 2025. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor, ac rwyf wedi rhoi rhesymau dros hyn yn yr ymateb manwl yn Atodiad A. Hoffwn wneud y pwynt cyffredinol, fodd bynnag, pe bai'r Bil yn symud ymlaen drwy'r broses ddeddfwriaethol, y byddaf yn parhau i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a byddaf, wrth gwrs, yn cyhoeddi Asesiad Effaith diwygiedig fel y bo'n briodol.

Yn olaf, roeddwn am ichi wybod y byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1 hwy, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion



**Mark Isherwood AS**
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad A**

**Ymateb gan Mark Isherwood, AS i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**

| |
|---|
| **Casgliad 1.**Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.<br><br>**Casgliad 2.**Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull cydweithredol rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu costau'r Bil, ac yn ystyried hyn yn fodel o arfer da ar gyfer Biliau anllywodraethol yn y dyfodol.<br><br>**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y dull o amcangyfrif costau'r Bil drwy weithio ar sail deddfwriaeth gymharol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata a methodolegau presennol a bod hyn wedi cynhyrchu trosolwg clir a chredadwy o oblygiadau ariannol y Bil. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fel yr amlinellir yng Nghasgliad 1. Mae fy ymateb i'r sylwadau a'r argymhellion penodol a wnaed gan y Pwyllgor wedi'u nodi ar wahân yn yr ymateb hwn.<br>Rwy'n croesawu'n fawr, ac yn gwerthfawrogi, Casgliad 2 y Pwyllgor ynglŷn â'r dull cydweithredol rhyngof fi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu costau'r Bil. Rwy'n hynod ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol am gydweithio'n agos â mi ar y gwaith o ddatblygu'r Bil. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi bod yn amhrisiadwy ar draws pob agwedd ar y gwaith o ddatblygu'r Bil, ac edrychaf ymlaen at weld y cydweithio hwnnw'n parhau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd.<br>Rwyf hefyd yn croesawu Casgliad 3 y Pwyllgor yn fawr iawn. Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaethpwyd llawer o waith, gan gynnwys ar ddeddfwriaeth gyfatebol a data presennol, ac rwy'n credu yn wirioneddol fod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gadarn ac mor gyflawn ag y gallwn fod wedi'u gwneud. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet i ddadansoddi manteision cost y Bil ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y manteision hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Byddwn yn hapus iawn i weithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet, lle bo hynny'n bosibl, i ddadansoddi manteision cost y Bil ymhellach.<br>Fodd bynnag, fel y nodais yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd y manteision sy'n deillio o'r Bil yn dibynnu'n fawr ar fanylion a chynnwys y strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP. Y strategaeth a'r cynlluniau fydd y prif ddogfennau a fydd yn pennu sut y caiff IAP ei hyrwyddo a'r defnydd ohoni'n cael ei hwyluso yng Nghymru. Heb wybod y manylion llawn o'r hyn y bydd y dogfennau allweddol hynny yn ei gynnwys, ni fydd yn bosibl mesur y manteision cost yn llawn ac yn gywir.<br>Rwyf wedi bod yn glir drwy gydol y broses hon mai Bil fframwaith yw hwn i raddau helaeth ac felly, dylid gadael manylion y Strategaeth a'r Cynlluniau IAP i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus lleol gytuno arnynt. Rwyf hefyd wedi bod yn glir, wrth ddatblygu'r strategaeth a'r cynlluniau IAP, y byddai'n hanfodol ymgynghori â'r gymuned Fyddar ac ymgysylltu â'r Cynghorydd IAP (i'w sefydlu o dan y Bil). Dim ond ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu y gellir ymgymryd â llawer o'r gwaith hwnnw. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda Llywodraeth Cymru i egluro sut y bydd ei pholisïau IAP presennol a chynlluniedig yn rhyngweithio â darpariaethau'r Bil, er mwyn penderfynu a yw'r amcangyfrifon cost a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu gofynion ariannol ychwanegol yn gywir, neu a allai rhai costau eisoes fod wedi'u talu drwy ymrwymiadau presennol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Byddwn yn hapus iawn i weithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet, lle bo modd, i egluro sut y bydd ei bolisïau IAP presennol a chynlluniedig yn rhyngweithio â darpariaethau'r Bil.<br>Fel yr amlinellwyd yn ystod y gwaith craffu ar y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud gwaith mewn perthynas â pholisi IAP yn ystod y cyfnod yr wyf wedi bod yn datblygu'r Bil. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r grŵp rhanddeiliaid IAP |

sydd bellach wedi cwblhau ei waith ac wedi gwneud argymhellion penodol yn ddiweddar.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu 'map llwybr Iaith Arwyddion Prydain' a fydd yn ddarn sylweddol o waith a fydd yn helpu tuag at ddatblygu'r strategaeth IAP ac ati. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rwy'n hyderus na fydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol uwchlaw'r amcangyfrifon a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cynhyrchu strategaeth IAP. Pe bai gostyngiad yng nghostau cynhyrchu'r strategaeth IAP, mae'n annhebygol y byddai'n sylweddol. Efallai hefyd y gall y cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain a'r panel cynghori neilltuo mwy o amser ac ymdrech ar ddatblygu manylion y strategaeth oherwydd bydd y map llwybr eisoes wedi'i gytuno. Mae'r holl waith hwn, yn fy marn i, yn ategu darpariaethau'r Bil yn hytrach na bod unrhyw waith sy'n gorgyffwrdd.

Nid wyf yn credu y byddai unrhyw ran o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru yn dod o fewn yr amcangyfrif costau a nodir yng ngweddill yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan fod y rhain yn ymwneud yn benodol â'r gofynion ar wyneb y Bil, h.y. datblygu'r Strategaeth IAP, cynlluniau IAP a sefydlu'r Cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain a'r panel.

Mae'n anochel y bydd rhywfaint o groesgyffwrdd rhwng polisi IAP parhaus Llywodraeth Cymru a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth a'r cynlluniau. Dim ond unwaith y bydd manylion y strategaeth a'r cynlluniau yn hysbys y gellir asesu hyn yn gywir.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda Llywodraeth Cymru i roi rhagor o eglurder ynghylch y costau sy'n deillio o'r Bil i gyrff cyhoeddus rhestredig, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu cynlluniau IAP.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a ystyriwyd eisoes gan y Pwyllgor yn nodi'r costau i gyrff cyhoeddus rhestredig wrth ddatblygu'r cynlluniau IAP sy'n ofynnol o dan y Bil. Rwy'n fodlon bod y costau a ddarparwyd yn hyn o beth yn gywir. Fodd bynnag, o ran y costau i gyrff cyhoeddus rhestredig wrth weithredu'r Bil, bydd hyn yn dibynnu'n fawr ar gynnwys a manylion y strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP.

Bydd rhaid i bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig benderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun. Bydd gan bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig y ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion eu hunain, boed hynny o fewn ardal ddiffiniedig eu hawdurdod lleol neu eu bwrdd iechyd, neu'n fwy cenedlaethol ar gyfer y cyrff cyhoeddus rhestredig hynny sydd â rôl genedlaethol.

| |
|---|
| Ni fydd yn bosibl datblygu'r cynlluniau IAP ar eu pen eu hunain, gan y bydd angen i gyrff cyhoeddus rhestredig ystyried y Strategaeth Genedlaethol a'r canllawiau cysylltiedig yn gyntaf cyn datblygu a chwblhau eu cynlluniau. Heb wybod manylion llawn yr hyn a fydd yn y dogfennau allweddol hynny, rhaid cyfrif y costau a briodolir i'w gweithredu fel rhai heb eu meintioli. |
| **Argymhelliad 4.**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Bil ac iddo gynnwys asesiad o gostau a buddion cyffredinol y Bil ac a yw hyn yn bodloni'r costau disgwyliedig a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth Cymru, yn hytrach na fi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, nid wyf yn credu y byddai angen 'adolygiad ôl-weithredu' llawn.<br>Mae Adran 7 o'r Bil eisoes yn cynnwys darpariaeth adrodd statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n asesu'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o IAP yn unol â'r Ddeddf. Mae'n ofynnol cyhoeddi adroddiadau Adran 7 o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 3 blynedd.<br>Mae'r ddarpariaeth adrodd hon yn cyd-fynd yn fras â'r darpariaethau adolygu statudol o fewn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, y cyfeiriodd y Pwyllgor atynt yn yr adroddiad.<br>Felly, nid wyf yn credu y byddai angen adolygiad ôl-weithredu ar wahân.<br>Rwy'n cytuno y gallai asesiad o gostau a buddion cyffredinol y Bil, ac a yw hyn yn bodloni'r costau disgwyliedig a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod yn fuddiol. Fodd bynnag, mater i Ysgrifennydd y Cabinet fydd hynny i'w ystyried ac ymateb iddo. |